# Pwyllgor Adolygu Gweithredol
## 24 Medi 2025

**Yn bresennol:** Dr R Plummer (Cadeirydd)
Y Cynghorydd S Alderman, y Cynghorydd M Bowen, y Cynghorydd S Hancock MBE, Mrs S Hoss a Mr GA Jones.

**Hefyd yn bresennol** : Sue Burton (Swyddog ACA Morol), Arwel Evans (Swyddog Cyswllt Cadwraeth Ffermio), Bethan Jones (Swyddog Cynaliadwyedd), Georgia Jones (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd), Tegryn Jones (Prif Weithredwr), Jessica Morgan (Pennaeth Datgarboneiddio), Sara Morris (Pennaeth Lle ac Ymgysylltu), a Michel Regelous (Swyddog Polisi Parciau Cenedlaethol a Morol).

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am – 11:30am)

**1. Ethol Cadeirydd**

Agorodd y Prif Weithredwr y cyfarfod gan ddweud mai dim ond un enwebiad oedd wedi dod i law am swydd y Cadeirydd, sef Dr R Plummer.

Ar gynnig y Cynghorydd S Hancock, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Alderman, **penderfynwyd** penodi Dr R Plummer yn Gadeirydd am y flwyddyn sydd i ddod.

Cymerodd Dr R Plummer y Gadair.

**2. Ethol Dirprwy Gadeirydd**

Dywedwyd bod un enwebiad wedi dod i law am swydd y Dirprwy Gadeirydd, sef y Cynghorydd S Alderman.

Ar gynnig Dr R Plummer, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Hancock, **penderfynwyd** penodi'r Cynghorydd S Alderman yn Ddirprwy Gadeirydd am y flwyddyn sydd i ddod.

**3. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr T Evans, A Tinley a C Williams BEM.

**4. Datgan buddiannau**

Datganodd y Cynghorydd S Alderman fuddiant yn adroddiad 10/25, sef yr adroddiad Gwyrddu Amaethyddiaeth 2022-2025.

**5. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2025 i'w cadarnhau a'u dilysu.

Ar gynnig Dr R Plummer, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Hancock, **penderfynwyd** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2025.

**6. Log Gweithredu a Materion yn Codi**

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod y camau gweithredu ar ddigwyddiadau yn y Gymraeg wedi'u dileu o'r log gweithredu gan fod yr Awdurdod yn rhan o'r trafodaethau parhaus gyda Chomisiynydd y Gymraeg ar y mater hwn. Cadarnhawyd y byddai'r mater o Ddigwyddiadau yn y Gymraeg yn cael ei ailystyried gyda'r Aelodau unwaith y byddai'r trafodaethau gyda'r Comisiynydd wedi dod i ben.

Gofynnodd Aelod am ddiweddariad ar y cynnydd o 43% yn y pryderon ynghylch yr hawliau tramwy cyhoeddus yn 2024/25, fel y trafodwyd yn y cyfarfod blaenorol. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod yr Awdurdod yn codi pryderon ynghylch hawliau tramwy cyhoeddus gyda Llywodraeth Cymru yn rheolaidd o ganlyniad i effaith gynyddol y newid yn yr hinsawdd. Ychwanegodd y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno gerbron yr Aelodau yn y dyfodol agos fydd yn cynnwys asesiad o'r risg i Lwybr yr Arfordir yn sgîl newid yn yr hinsawdd wrth i'r Swyddogion fynd ati i ddeall yn well yr heriau y mae'r Awdurdod yn eu hwynebu yn y cyswllt hwn.

**Nodwyd.**

**7. Archwiliad Dwfn/ Hunanasesiad ar yr Amcan Llesiant: yr Hinsawdd**

Cyflwynodd y Pennaeth Datgarboneiddio adroddiad ar yr archwiliad dwfn a hunanasesiad ar yr amcan llesiant sy'n ymwneud â'r Hinsawdd. Dywedwyd bod yr amcan Hinsawdd yn canolbwyntio ar gyflawni Awdurdod carbon-niwtral erbyn 2030, a chynorthwyo'r Parc i gyflawni niwtraliaeth carbon ac addasu i effaith newid hinsawdd. Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion am ganlyniadau'r amcan, asesiad o'r cynnydd, ystadegau perthnasol, astudiaethau achos, yr heriau a'r cyfleoedd, manylion y cyfraniadau at ganlyniadau trawsbynciol, ac asesiad cyffredinol, a'r camau nesaf.

Hefyd rhoddodd y Swyddog gyflwyniad oedd yn amlinellu Cynllun Cyflawni yr Awdurdod ar Ddatgarboneiddio, cipolwg ar yr allyriadau cyfredol a naratif, manylion am y cynnydd a'r cyflawniadau allweddol, gwaith cymunedol a phartneriaeth, a'r camau nesaf.

Gofynnodd Aelod am fanylion pellach ynghylch lefel y cydweithio rhwng y tîm â phartneriaid eraill. Cadarnhaodd y Swyddog bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi sefydlu grŵp ar gyfer Swyddogion Cynaliadwyedd oedd yn cynnig y cyfle i rannu arferion gorau, adnoddau, ac i drafod heriau tebyg, gan ei bod yn ofynnol i bob corff cyhoeddus lenwi'r un gwaith papur yn flynyddol. Cadarnhaodd y Swyddog bod y tîm hefyd wedi derbyn cymorth gan y Gwasanaeth Ynni Cymru oedd wedi cynnal Asesiad Gwladwriaeth-gyfan ar gyfer yr Awdurdod, yn rhad ac am ddim. Ychwanegodd y Swyddog bod cymorth hefyd ar gael gan grwpiau Parciau Cenedlaethol y DU.

**Nodwyd.**

## 8. Y Prosiect Wystrys

Roedd Swyddog Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Forol Sir Benfro wedi rhoi cyflwyniad ar fanylion y Prosiect Wystrys Brodorol Dyfrffordd Aberdaugleddau gan Brifysgol Bangor dan arweiniad Tîm Cadwraeth yr Awdurdod. Roedd y cyflwyniad yn amlinellu’r prosiect a'i fuddiannau, ac yn cynnwys gwybodaeth am wystrys, yr heriau a wynebir gan y tîm, ymgysylltu â'r cyhoedd, manylion prosiectau tebyg eraill, a dyheadau ar gyfer y dyfodol.

Roedd yr Aelodau wedi canmol y tîm am eu gwaith caled a'u llwyddiannau, a chytunwyd bod y prosiect wedi helpu i ddiogelu bioamrywiaeth a’r diwylliant a’r dreftadaeth leol. Cadarnhaodd y Swyddog ACA Morol bod y tîm yn dymuno cynyddu eu gwaith o ymgysylltu â'r gymuned yn yr ardal gan fod wystrys yn rhan bwysig o’r hanes lleol.

Cafwyd trafodaeth i ddilyn ynghylch yr effaith gadarnhaol y mae wystrys yn ei chael ar ansawdd dŵr, a chadarnhaodd y Swyddog ACA bod wystrys yn tynnu maethynnau gormodol o'r dŵr drwy eu hymgorffori yn eu cregyn a'u meinwe wrth iddynt dyfu. Ychwanegodd y byddai'r maethynnau yn parhau i gael eu storio cyn belled â bod gwely'r môr yn llonydd.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, cadarnhaodd y Swyddog ACA mai uchelgais y prosiect oedd adeiladu riffau yn y pen draw, ond mai nod hirdymor oedd hwn.

**Nodwyd.**

## 9. Gwyrddu Amaethyddiaeth

Cyflwynodd y Swyddog Cyswllt Cadwraeth Ffermio adroddiad oedd yn amlinellu'r gwaith a wnaed dros y tair blynedd diwethaf drwy'r rhaglen Gwyrddu Amaethyddiaeth a'r Grant Ffiniau Traddodiadol. Roedd yr adroddiad a'r cyflwyniad yn amlinellu’r cyflawniadau allweddol, astudiaethau achos manwl ar ffermydd, effeithiau carbon a bioamrywiaeth, a’r gwersi a ddysgwyd o roi cymorth ar ddatgarboneiddio i dirfeddianwyr ledled Sir Benfro. Hefyd roedd y Swyddog wedi amlinellu camau nesaf y prosiect, a chadarnhaodd y byddai'r ffocws wrth symud ymlaen ar reoli dŵr croyw, ffermio adfywiol, gwarchod tir comin, ffiniau traddodiadol a chadwraeth rhywogaethau.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, cadarnhaodd y Swyddog bod y prosiect yn cael ei ariannu ar gylch tair blynedd. Ychwanegodd bod Swyddogion yn cynorthwyo tirfeddianwyr drwy’r prosiect Ffermio Bro i weithio tuag at haen gydweithredol newydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, fyddai’n agor cyfleoedd newydd i’r ffermydd gael cyllid ychwanegol.

Canmolwyd y Swyddog a'i dîm am lwyddiannau'r prosiect, a gwnaeth Aelod sylw y byddai ehangu'r prosiect yn y dyfodol yn ddatblygiad i'w groesawu.

**Nodwyd.**

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 10/12/2025 heb eu diwygio. |